

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ar ddydd Mawrth, 22 Tachwedd 2022 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Karen Edwards, Pauline Edwards, Justine Evans, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James, Gareth Sandilands, Peter Scott ac Andrea Tomlin

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Eiddo (SG); Gwasanaeth Cymunedau a Chwsmeriaid (LG), Gwella a Moderneiddio Busnes (NK); Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), a Gwasanaethau Cefnogaeth Cymunedol (AL); Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (MJ); Uwch Swyddog Cynllunio (LG); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD); Arweinydd Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol (IM); Rheolwr Risg ac Asedau (TT); Rheolwr Gwasanaeth – Cefnogi Busnes a Chymunedau (NJ) a Gweinyddwyr Pwyllgor (KEJ, NPH & SLW [gweddarlledwr])

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Byddai'r Cynghorydd Emrys Wynne yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

## **5 CYNLLUN CLUDIANT CYNALIADWY DRAFFT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad yn ceisio barn y Cabinet ar y Cynllun Cludiant Cynaliadwy cyn yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd i ddod ar y Cynllun ar ddechrau 2023. Byddai fersiwn terfynol o'r Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth derfynol yng nghanol 2023.

Darparwyd rhywfaint o gefndir i'r Cynllun a ddatblygwyd gan swyddogion o wahanol wasanaethau'r cyngor i adlewyrchu natur trawsbynciol cludiant. Cyfeiriwyd at amcanion a dyletswyddau amgylcheddol y cyngor ac roedd y Cynllun yn cynnwys holl weithgareddau cysylltiedig â chludiant i annog teithio cynaliadwy, o'r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a phrosiectau/polisiau eraill. I alinio gyda Strategaeth Cludiant Cymru, "Llwybr Newydd", roedd y Cynllun yn cynnwys gweledigaeth 20 mlynedd a blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a olynir gan set arall o flaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd yn dilyn hynny. Pwysleisiwyd nad oedd camau o fewn y Cynllun yn angenrheidiol yn newydd, gyda llawer o waith yn cael ei wneud dros nifer o flynyddoedd. Roedd y gweithgareddau hynny wedi eu cynnwys mewn un ddogfen hygyrch ar gyfer eglurder a byddent hefyd yn helpu i nodi unrhyw fylchau posibl.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r Cynllun drafft ac ymarfer ymgysylltu dilynol i roi cyfle i rhanddeiliaid a'r cyhoedd ddarparu mewnbwn i'r broses. Derbyniwyd e-bost gan y Cynghorydd Jon Harland yn awgrymu mân adolygiadau i'r Cynllun, gan gynnwys y cwmpas i edrych eto ar 'Fysiau Cerdded' i gynnwys 'Bysiau Beicio' hefyd i annog mwy o ddysgwyr i gerdded a beicio i'r ysgol, a darparu llwybrau diogel i ysgolion i hwyluso teithio llesol. Amlygodd y Cynghorydd Gill Greenland waith ar y gweill ar hyn o bryd gydag ysgolion gan gynnwys hyfedredd beicio a chysylltiadau i draffig/parcio a gwneud ysgolion yn fannau diogel, a byddai hefyd yn codi'r materion hynny fel yr aelod arweiniol perthnasol. Roedd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd yn cadarnhau y gellir bwrw ymlaen a chynnwys bysiau beicio fel rhan o waith dichonoldeb ac yn cydnabod pwysigrwydd llwybrau diogel i'r ysgol i annog teithio mwy gwyrdd. Roedd yna rywfaint o ddadl ar deilyngdod 'Bysiau Cerdded' a phwysigrwydd prynu i mewn gan rieni a'r sawl yn hwyluso'r cynllun iddo fod yn llwyddiannus. Roedd y Cynghorydd Julie Matthews wedi amlygu materion a godwyd gan rai preswylwyr heb unrhyw le parcio oddi ar y stryd ar gael i wefru cerbyd ac roedd yn falch i nodi cyfeiriad yn y Cynllun i ddatblygu'r ddarpariaeth.

Roedd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd yn ymateb i gwestiynau pellach ynglŷn â phwysigrwydd y Cynllun i hybu twf economaidd a chadarnhau y byddai'r Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Ffederasiwn Busnesau Bach yn cael ei gynnwys yn rhan ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r Cynllun. O ran cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer terfyn cyflymder 20mya, roedd y nod yn cynnwys diogelwch ffyrdd ac annog dewisiadau teithio llesol. Byddai adroddiad ar y terfyn cyflymder 20mya yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 8 Rhagfyr 2022.

Ategodd yr Arweinydd bod y Cynllun mewn ffurf drafft ar hyn o bryd ac yn annog cyfranogiad llawn yn y broses ymgysylltu cyn i Gynllun terfynol gael ei gymeradwyo ganol 2023. Roedd yn falch o nodi y byddai pwyntiau'r Cynghorydd Harland yn cael eu symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *nodu cynnwys y Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft, yn Atodiad A i'r adroddiad;*
- (b) *nodu, yn dilyn yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, ac unrhyw ddiwygiadau o ganlyniad, y byddai fersiwn derfynol y Cynllun Cludiant Cynaliadwy yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w drafod ac i roi cymeradwyaeth derfynol yng nghanol 2023, a*
- (c) *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad B yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **6 CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Win Mullen-James yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i Gytundeb Cyflawni diwygiedig i ddisodli'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) 2018 - 2033 i fynd gerbron y Cyngor i'w gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen i symud ymlaen i fabwysiadu'r CDLI newydd ac yn amlinellu pwy, sut a phryd fydd y Cyngor yn ymgynghori ar y camau amrywiol. Cafodd y Cytundeb Cyflawni presennol ei gymeradwyo ym Mai 2018. Mae angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn sgil yr oedi yn yr amserlen gytunedig a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19, oedi mewn cyhoeddi'r canllawiau a pholisi perygl llifogydd ac etholiadau lleol. Nid oedd yn bosibl darparu camau ymgynghori ffurfiol pellach nes oedd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig wedi'i gymeradwyo. Cafodd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig ei ystyried gan y Grŵp Cynllunio Strategol yn Hydref 2022, lle argymhellwyd iddo fynd i'r Cabinet a'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth.

Roedd y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad ac er yn derbyn bod yr oedi yn yr amserlen flaenorol oherwydd rhesymau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, roedd yn awyddus i'r gwaith gael ei ddatblygu gynted â phosibl. Gofynnwyd cwestiynau am y dull a gymerwyd, ac oherwydd yr amgylchiadau a oedd unrhyw gwmpas i newid y dyddiad dechrau 2018 o ystyried y byddai'r Cynllun yn cael ei fabwysiadu rhai blynyddoedd ar ôl y dyddiad hwnnw, a pha un a all y CDLI fod yn ddogfen barhaus wedi'i hadolygu'n achlysurol yn hytrach na chael dyddiad dechrau a dyddiad terfyn. Roedd effaith yr oedi ar elfennau o'r CDLI presennol yr oedd aelodau yn dymuno eu herio hefyd yn bryder.

Ymatebodd yr Uwch Swyddog Cynllunio i gwestiynau a sylwadau fel a ganlyn –

- nodwyd bod awdurdodau lleol eraill hefyd wedi profi oedi oherwydd materion tebyg, gan gynnwys effaith y targedau ffoffad newydd ar ddatblygiad, ac roedd yna hyder y byddai'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn datblygu'r CDLI i'w fabwysiadu.
- byddai'r CDLI newydd yn cynnwys y cyfnod 2018 - 2033 ac er y gwerthfawrogi'r y byddai rhan o'r Cynllun yn y gorffennol, roedd yn arferol i CDLIau o ystyried y broses gylchol. Oherwydd yr oedi, byddai'r broses yn debyg o gymryd dwy flynedd yn fwy na'r hyn a drefnwyd yn wreiddiol.
- roedd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cynnwys amserlen dynn ac uchelgeisiol ond roedd yna hyder y byddai'n cael ei fodloni gyda'r bwriad i fabwysiadu'r CDLI newydd yn 2025 gyda digon o amser yn weddill yn y Cynllun ar gyfer ei weithredu a chyflawni ei nod ac amcanion. Roedd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig angen cymeradwyaeth y Cyngor cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cytundeb.
- os byddai dyddiad dechrau'r Cynllun yn cael ei symud nawr, byddai angen aildechrau'r broses gyfan (oherwydd bod y sail tystiolaeth wedi'i gasglu ar gyfer 2018 - 2033) fyddai'n ychwanegu blynyddoedd ychwanegol i'r broses mabwysiadu Cynllun newydd.
- rhoddwyd rhagor o wybodaeth ar y broses gylchol o fabwysiadu'r CDLI, fel arfer cyn i'r Cynllun presennol ddod i ben, o ddechrau'r adolygiad mwyafswm o 4 blynedd o'i fabwysiadu.
- Byddai'r CDLI yn parhau mewn grym (yn dibynnu ar fabwysiadu CDLI newydd) a oedd ar hyn o bryd y tu hwnt i'w ddyddiad terfyn ac roedd yna hyder bod y CDLI presennol yn parhau'n berthnasol ac yn addas i'r diben wrth ystyried ceisiadau cynllunio.
- roedd yna feysydd polisi newydd i'w cynnwys yn y CDLI newydd, fel newid hinsawdd a ble roedd yna newidiadau i bolisi cenedlaethol (oedd yn anghydwedd â pholisi lleol) byddent yn cael blaenoriaeth.
- wrth ystyried ceisiadau cynllunio, mae'n bosibl y bydd yna ystyriaethau materol perthnasol eraill ac roedd yn iawn bod aelodau yn herio elfennau o fewn y CDLI. Roedd safleoedd presennol yn parhau yn y CDLI nes bydd y Cynllun newydd wedi'i fabwysiadu.
- roedd y CDLI a Chynllun Datblygu Cenedlaethol Dyfodol Cymru, Llywodraeth Cymru yn parhau y ddwy ddogfen i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau ac argymhellion.
- roedd y broses CDLI yn cael ei rheoleiddio a'r gofynion yn y ddeddfwriaeth - roedd yn ofynnol nodi cyfnod y Cynllun
- roedd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn Rhagfyr 2021 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Arhoswyd am adborth gan Lywodraeth Cymru ar y ddogfen honno fyddai'n ffurfio rhan o'r CDLI newydd.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les, fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad, fel rhan o'i ystyriaethau, a*
- argymhell y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig i fynd ymlaen i'r Cyngor i'w gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.*

## **7 DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016 A DEFNYDDIO TENANTIAETH RAGARWEINIOL**

Cyflwynodd y Cyngorydd Rhys Thomas yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i roi'r gorau i ddefnyddio Tenantiaeth Ragarweiniol i denantiaid newydd y cyngor a hysbysu'r Cabinet am gytundeb tenantiaeth newydd ar gyfer tenantiaid y Cyngor.

Bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2022, a bydd yn cyflwyno cyfraith tenantiaeth newydd ar gyfer pob tenant yng Nghymru. Roedd y fframwaith deddfwriaethol newydd yn rhoi cyfle i adolygu polisi Tenantiaeth Ragarweiniol y Cyngor a ystyriwyd yn "Ilym" ac yn groes i'r dull modern presennol i reoli a chefnogi tenantiaethau newydd gydag ystod o ddatrysiadau eraill. Roedd y mwyafrif o gynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cymryd yr un camau. Roedd y ddeddf newydd hefyd yn golygu disodli'r Denantiaeth Ddiogel bresennol gyda Chontract Meddiannaeth Ddiogel ac roedd gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod y denantiaeth bresennol yn newid yn gywir i'r contract newydd. Darparwyd manylion y cytundeb tenantiaeth newydd gan gynnwys cyfeirio at drosglwyddo tenantiaeth, hawl olyniaeth a safon Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw ynddi.

Roedd y Pennaeth Cymunedau a Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn pwysleisio pwysigrwydd deddfwriaeth newydd a gwaith sylweddol a wnaed gan y Tîm Tai Cymunedol. Y Swyddog Arweiniol - roedd Tai Cymunedol wedi amlinellu'r prif elfennau o'r ddeddfwriaeth newydd a gweinyddu tenantiaethau a rhoi sicrwydd nad oedd tenantiaid wedi colli unrhyw ddiogelwch mewn cyfraith. Argymhellwyd nad yw Tenantiaethau Rhagarweiniol yn cael eu defnyddio mwyach oherwydd newid hinsawdd a chefnogaeth ddwys i denantiaid newydd. Cyfeiriwyd hefyd at y safon Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw ynddi o ystyried achos erchyll marwolaeth plentyn yn Rochdale ar ôl llwydni yn ei gartref a rhoi sicrwydd am addasrwydd cartrefi'r cyngor.

Roedd y Cabinet yn cefnogi newid dull i denantiaid newydd ac yn ceisio mwy o wybodaeth yn y cyswllt hwnnw ynghyd â gwaith i gadw cartrefi mewn cyflwr da. Cadarnhaodd swyddogion bod y mwyafrif o awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o'r un farn o ran tenantiaethau rhagarweiniol gydag ymrwymiad tebyg i beidio troi aelwydydd allan, yn arbennig i ddigartrefedd, ble bynnag bo'n bosibl. Roedd gwaith i gefnogi tenantiaid drwy ddeuddeg mis cyntaf y denantiaeth yn seiliedig ar asesiad o anghenion trwyadl o'r aelwyd, rhannu gwybodaeth, ymweliadau rheolaidd gan Swyddogion Tai ac atgyfeiriadau fel bo'n briodol i'r sawl sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Hysbyswyd y Cabinet am waith ar y gweill i gynnal safonau ansawdd mewn cartrefi, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag anwedd, gyda briffiadau staff a gwybodaeth i denantiaid. Rhoddwyd sicrwydd, yn groes i arfer cyffredin yn Lloegr i atal gwaith atgyweirio unwaith y cofnodwyd hawliad atgyweirio, roedd Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda thenantiaid i wneud unrhyw waith atgyweirio sy'n weddill.

Roedd yr Arweinydd yn diolch i'r swyddogion am y sicrwydd a roddwyd a gwaith a wnaed i gefnogi tenantiaid a'u helpu i wneud dewisiadau hysbys i reoli eu cartrefi orau.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cytuno i beidio â defnyddio Tenantiaeth Ragarweiniol mwyach i denantiaid newydd y cyngor, a*
- (b) *Bod y Contract Meddiannaeth newydd ar gyfer holl denantiaid y cyngor, a chrynodeb o'r prif newidiadau a gyflwynir gan y ddeddfwriaeth newydd yn cael eu nodi.*

## **8 POLISI GOSOD TAI NEWYDD YN LLWYN EIRIN, DINBYCH**

Cyflwynodd y Cyngorydd Rhys Thomas yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cabinet am Bolisi Gosod Lleol i ddyrannu'r 22 o dai newydd yn Llwyn Eirin, Dinbych.

Roedd dyrannu tai ar gyfer rhentu cymdeithasol yn derbyn sylw drwy'r Polisi Dyrannu a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2017 ac yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau gweinyddu cofrestr dai a dyrannu tai. Oherwydd y nifer fawr o dai newydd yn Llwyn Eirin byddai angen dull newydd i sicrhau'r gymysgedd gywir o aelwydydd i ffurfio cymuned newydd wydn tra'n bodloni'r angen lleol am dai. Mae'r Polisi Gosod Tai Lleol ynghlwm yn nodi sut y byddwn yn targedu aelwydydd presennol yn Ninbych, o fewn categorïau a ffefrir rhesymol, i greu cymysgedd o aelwydydd Band 1 (Angen Brys) a Band 2 (Angen Tŷ) a hybu cymuned gynaliadwy o aelwydydd gyda chysylltiadau â'r ardal.

Roedd y Cabinet wedi amlygu tai fel prif flaenoriaeth ac roedd yn croesawu datblygiad newydd tai cyngor i fynd i'r afael â'r angen am dai a adeiladwyd i safon passivhaus. Roedd yr angen i greu cymuned gynaliadwy drwy'r polisi gosod lleol wedi'i dderbyn ac roedd y Cabinet yn falch i nodi blaenoriaeth ar gyfer y ddwy ward yn Ninbych ac y byddai preswylwyr Dinbych ym Mand 1 yn cael eu cartrefu. Byddai'r dull hefyd yn creu mwy o symud yn y farchnad dai gyfan. Cadarnhawyd unwaith yr oedd y 22 cartref wedi eu gosod, byddai gosodiadau yn y dyfodol yn cael eu gosod yn unigol yn unol â phrif bolisi dyrannu. Cadarnhaodd swyddogion mai'r bwriad oedd ystyried teilyngdod polisi gosodiadau lleol ar gyfer cynlluniau tai newydd yn y dyfodol o dros 10 cartref er mwyn greu cymunedau cynaliadwy a byddai'r Cabinet hefyd yn cyfrannu fel rhan o'r broses honno. O ran darparu cefnogaeth ar gyfer y datblygiad newydd, byddai Swyddogion Tai yn gweithio'n unigol gyda thenantiaid a byddai'r Tîm Gwydnwch Cymunedol yn ymgysylltu a'r tenantiaid newydd i helpu i ddatblygu cymuned gynaliadwy a sicrhau llwyddiant wrth symud ymlaen. Cadarnhawyd bod Deddf Tai 1996 yn caniatáu i awdurdodau lleol greu polisi gosod lleol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Gosod Tai Lleol ar gyfer dyrannu tai yn Llwyn Eirin, Dinbych (wedi ei atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad).

Ar y pwynt hwn (11.25 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## **9 DIWEDDARIAD HUNANASESIAD PERFFORMIAD, CHWARTER 2, 2022 I 2023**

Cyflwynodd y Cyngorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar ddiwedd chwarter 2, 2022 i 2023, gan gynnwys amcanion y Cynllun Corfforaethol a Chydraddoldeb Strategol, a'r saith maes llywodraethu allweddol.

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno mewn dwy ran yn amlinellu cynnydd yn erbyn Amcanion Perfformiad a Meysydd Llywodraethu, ac roedd yn casglu'r dystiolaeth oedd yn ffurfio rhan o Hunanasesiad o berfformiad yn erbyn swyddogaethau fel bo'r angen o dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o ddiweddariadau prosiect a data, ynghyd â thablau data sy'n rhoi amlinelliad llawn o'n sefyllfa bresennol. Cyflwynwyd gweithgareddau diweddar y cyngor hefyd sy'n dangos ein bod yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Eglurodd y Pennaeth Interim Busnes Gwella a Moderneiddio bod yr adroddiad yr olaf yn seiliedig ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017 i 2022, y Cynllun Corfforaethol newydd a gymeradwywyd yn Hydref 2022. Arweiniodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad y Cabinet drwy bob un o'r pump maes blaenoriaeth, yn amlygu prif negeseuon a mesurau perfformiad yn y cyswllt hwnnw. Tynnwyd sylw hefyd at y deilliannau iechyd corfforaethol, yn arbennig meysydd pryder yn ymwneud â Chyllid; Gallu Staff o fewn Archwilio Mewnol; Cofrestr Risg Gorfforaethol a Recriwtio/Cadw Staff. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hefyd yn dangos cynhyrchedd a chynnydd anhygoel a wnaed ar draws y cyngor cyfan.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- roedd aelodau yn amlygu'r swyddogaeth hanfodol a wnaed gan Archwilio Mewnol a thrafodwyd y nifer o swyddi gwag yn y Tîm Archwilio Mewnol a'u gallu i ddarparu'r sicrwydd perthnasol oedd yn ofynnol. Dywedodd Swyddogion y byddai rhywfaint o waith archwilio mewnol yn debyg o gael ei gomisiynu i sicrhau bod hanfodion y cynllun archwilio wedi eu cwblhau ac ymgwymerwyd ag ymarfer recriwtio i sicrhau digon o gapasiti wrth symud ymlaen. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r mater yn parhau i gael ei fonitro drwy adroddiadau perfformiad chwarterol. Cytunwyd i hysbysu'r Cabinet a Briffio'r Cabinet am gynnydd
- anawsterau recriwtio staff a nifer o swyddi gwag ar draws y cyngor yn cael ei gydnabod gyda marchnad lafur anodd, ac nid oedd y broblem yn unigryw yn Sir Ddinbych. Mewn ymateb, roedd y cyngor yn adolygu pob agwedd o'i broses recriwtio i'w gwneud mor hawdd â phosibl i bobl ymgysylltu a sicrhau bod y cyngor yn gyflogwr deniadol.
- roedd rhai o'r mesurau yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi eu cyhoeddi'n achlysurol ac felly roedd yn anodd asesu'r sefyllfa bresennol a chynnydd y dyfodol yn gywir. Roedd y mater hwnnw yn cael ei drafod yn genedlaethol o ran sut y gellir cael mynediad i fwy o ddata presennol i fonitro'r sefyllfa. O waith diweddar a wnaed fel rhan o'r Asesiad o Les, a phwysau a wynebir gan gymunedau fel Covid-19 a'r argyfwng costau byw, rhagwelir y byddai yna fwy o bwysau o ran amddifadedd oedd yn debyg o fod wedi ehangu. O ystyried thema Sir Ddinbych mwy teg a chyfartal, roedd fframwaith yn cael ei ddatblygu i fonitro amddifadedd a pherfformiad yn agos mewn cymunedau o ran

incwm a chyflogaeth ac ati. Roedd yr Arweinydd yn amlygu pwysigrwydd data perthnasol i gymell polisi a nodi'r angen a chyfeiriwyd at waith Data Cymru y byddai'n adrodd yn ôl arno.

- roedd statws canran band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych wedi'i amlygu fel blaenoriaeth ar gyfer gwella a chyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at ddod a'r prosiect i ben yn Llanfwrog a'r effaith ar gymunedau. Derbyniwyd bod cysylltedd yn fater cymhleth, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ac roedd y tu allan i reolaeth y cyngor yn bennaf. Roedd y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater ac roedd gan y cyngor Swyddog Digidol oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau i gymryd rhan yn y cynllun taleb band eang ffibr cymunedol. Roedd yr heriau hynny hefyd wedi eu codi mewn cyfarfodydd diweddar gydag Aelodau Lleol o'r Senedd a allai ddylanwadu ar y broses ar lefel genedlaethol. Roedd yr Arweinydd hefyd yn cyfeirio at Raglen Ddigidol y Bwrdd Uchelgais Economaidd a gwaith i wella cysylltedd.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar ddiwedd chwarter 2 2022/23 a chadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft.

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhodddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 oedd £233.693 miliwn (£216.818 miliwn yn 2021/22)
- gorwariant o £5.535 miliwn wedi'i ragweld ar gyfer gwasanaeth a chyllidebau corfforaethol (£2.661miliwn o orwariant y mis diwethaf) oherwydd pwysau ychwanegol o fewn Gofal Cymdeithasol (Oedolion a Phlant), y Gwasanaeth Digartrefedd a Chludiant Ysgol.
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith y coronafeirws a chwyddiant.
- manylion am arbedion gwasanaethau a chynnydd mewn ffioedd a thaliadau (£0.754 miliwn); ni ofynnwyd am arbedion gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion
- rhodddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a chafwyd diweddariad ar brosiectau mawr.

Roedd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo wedi amlygu'r cynnydd sylweddol mewn gorwariant ers y mis blaenorol. Er bod yna ddigon o arian wrth gefn ar gyfer y lefel o orwariant, os byddai angen yr holl arian wrth gefn oedd ar gael ar gyfer gorwariant yn ystod y flwyddyn, byddai'n cyfyngu unrhyw gymorth yn y broses gyllideb anodd ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Byddai gwasanaethau yn adolygu incwm a gwariant gyda'r bwriad i leihau'r gorwariant. Roedd modd arall o ddelio â'r gorwariant yn cynnwys defnyddio'r gronfa wrth gefn lliniaru'r gyllideb ac arian wrth



gefn cyffredinol ynghyd ag oedi posibl wrth recriwtio ble bo'n briodol. Polisi presennol y cyngor oedd cynnal lefel yr arian wrth gefn £5miliwn ac felly byddai unrhyw ostyngiad o £5miliwn angen newid polisi. Nodwyd bod y colofnau amrywiad gwasanaeth yn Atodiad 2 wedi eu gosod yn y drefn anghywir ond roedd y ffigyrau a'r naratif yn gywir.

Roedd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yn talu teyrnged i waith caled y Pennaeth Cyllid ac Eiddo a'i dîm ar y gyllideb bresennol a gorwariant ac mewn gosod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn arbennig o ystyried y lefel bresennol o ansicrwydd. Roedd yr Arweinydd yn adleisio'r teimladau hynny a'i werthfawrogiad o'r holl waith caled.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Ffioedd Cartrefi Gofal yn Sir Ddinbych blwyddyn ariannol 2023/24 - Rhagfyr
- Cynlluniau Byw â Chymorth Anabledd Dysgu Sir Ddinbych - Ionawr
- Y Gronfa Ffyniant Gyffredin - Ionawr i Fehefin

**PENDERFYNWYD** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

## 12 CYNLLUNIAU AMDDIFFYN YR ARFORDIR CANOL Y RHYL A CHANOL PRESTATYN - PAPUR DILYNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddau gynllun amddiffynfeydd arfordirol posibl ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r prosiect i'r Cyngor gydag argymhelliad i ariannu cam adeiladu'r ddau gynllun.

Roedd y Cabinet wedi ystyried adroddiad tebyg yn eu cyfarfod diwethaf ac wedi cefnogi cynigion i ddatblygu'r ddau gynllun a'u cyflwyno i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a'r Amgylchedd yn egluro wrth gwblhau'r achos busnes llawn, canfuwyd bod costau prosiect anghywir ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl wedi'i gynnwys yn adroddiad y Cabinet, gyda ffigwr o £58miliwn wedi'i ddefnyddio yn lle £66miliwn, ac roedd yn ymddiheuro am y gwall. Nodwyd nad oedd y Cabinet wedi gwneud penderfyniad cyllid yn eu cyfarfod diwethaf, ond roedd yn briodol adrodd ar y sefyllfa ariannol gywir yn ôl i'r Cabinet o ystyried y lefel gynyddol o ymrwymiad ariannol a nodwyd. Tynnwyd sylw'r Cabinet at y ffaith bod y ddau gynllun yn dal i haeddu cefnogaeth y cyngor er mwyn diogelu tref y Rhyl a Phrestatyn rhag y risg o lifogydd. Byddai 85% o gyfanswm cost y cynlluniau yn parhau i gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac er bod gwaith yn parhau i werthuso dewisiadau i leihau'r costau, roedd y dybiaeth bresennol yn seiliedig ar fwyafswm cost cyfunol y ddau gynllun sef £92miliwn.

Roedd y Cabinet wedi ystyried rhinweddau'r ddau gynllun yn eu cyfarfod diwethaf a phwysigrwydd diogelu tref y Rhyl a Phrestatyn rhag y perygl o lifogydd a'r trychineb a achoswyd gan ddigwyddiadau llifogydd. Nodwyd bod y ddau gynllun wedi eu priso'n llawn a'r gwall yn ymwneud â ffigwr anghywir wedi'i gynnwys yn adroddiad y Cabinet a nodwyd yn ystod gwiriadau a balansau dilynol. Ar ôl ystyried y diweddariad a chost y prosiect wedi'i gywiro ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl, roedd y Cabinet yn parhau o'r farn bod y ddau gynllun yn hanfodol ar gyfer diogelwch a chynaliadwyedd y trefi hynny i breswylwyr, busnesau a thwristiaeth a'i fod yn anochel bod y trefi hynny yn cael eu diogelu.

Roedd y Cynghorydd Gareth Sandilands yn cefnogi'r prosiect ond gofynnodd am sicrwydd o ran sefydlogrwydd ariannol i'r cynlluniau wrth symud ymlaen. Roedd yr Aelod Arweiniol a swyddogion yn amlygu llwyddiant Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Dwyrain y Rhyl a gwblhawyd o fewn cyllideb ac o flaen yr amserlen. Byddai dull tebyg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynlluniau Canol y Rhyl a Phrestatyn gyda phob agwedd o gostau yn cael eu monitro'n barhaus gan y contractwyr a'r cyngor. Roedd pob risg wedi eu priso a'u cynnwys yn y gyllideb ond y rhagdybiaeth oedd na fyddai pob risg yn dwyn ffrwyth ac roedd costau chwyddiant hefyd wedi eu cynnwys yn y gyllideb na fydd ei angen o bosibl. O ganlyniad, roedd yna hyder yn narpariaeth y gyllideb ar gyfer y ddau gynllun a gellir derbyn sicrwydd o ran eu cyflawni.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnwys yr Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer pob cynllun (sydd wedi'u hatodi fel Atodiad 3a ac Atodiad 3b yn yr adroddiad);*
- (b) *cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl yn ei flaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a nodir gan Lywodraeth Cymru ac yn cytuno i'r cynnig gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad;*
- (c) *cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn yn ei flaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a nodir gan Lywodraeth Cymru ac yn cytuno i'r cynnig gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad, ac*
- (d) *dirprwyo awdurdod i Fwrdd Prosiect Amddiffyn yr Arfordir gyflawni'r cynlluniau.*

## **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

Cyflwynodd y Cyngorydd Rhys Thomas adroddiad cyfrinachol yn manylu canlyniad yr ymarfer tendro ar gyfer y Prosiect Cefnogi Llety Brys Dros Dro newydd a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract i'r darparwr gwasanaeth penodol fel y manylir yn yr adroddiad.

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo dechrau'r broses gaffael yn flaenorol fel y nodwyd yn y Ffurflen Gomisiynu yn Gorffennaf 2022. Nod y prosiect oedd datblygu cynnig llety brys dros Dro Sir Ddinbych i gynnig profiad gwell ble cefnogwyd pobl i wella eu lles a datblygu eu dyfodol. Trefnwyd i'r prosiect ddechrau yn Ionawr 2023 gyda chyfnod arweiniol o 4 mis a gwasanaethau yn dechrau yn Ebrill 2023 i gydfynd ag agor Epworth Lodge yn y Rhyl. Darparwyd manylion yr ymarfer caffael a darparwr gwasanaeth a argymhellwyd oedd yn bodloni manylion y prosiect orau.

Ychwanegodd y Cyngorydd Thomas y byddai'r prosiect yn darparu cefnogaeth 24 awr cynhwysfawr yn ogystal â'r gefnogaeth bresennol i'r sawl mewn llety dros dro.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cydnabod fod ymarfer tendr teg a chadarn wedi ei gwblhau yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau Sir Ddinbych, a oedd wedi adnabod 'enillydd' clir, a oedd wedi gosod rhaglen sydd wedi bodloni nodau a dyheadau manylion y prosiect a nodwyd yng nghais y tendr.*
- (b) *cytuno i ddyfarnu'r contract i'r darparwr gwasanaeth a enwyd a argymhellwyd fel nodir yn yr adroddiad yn seiliedig ar eu cynigion tendr ar y lefel ffi a gynigiwyd, yn unol â'r adroddiad dyfarnu (wedi ei atodi fel Atodiad 4 i'r adroddiad) a*
- (c) *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai 2022-25 (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.